

Polisi a Gweithdrefn Adrodd Cyfrinachol

2017-18

Tabl y Cynnwys

Pwy sy'n cael eu diogelu?	2
Egwyddorion y Polisi	3
Atebolrwydd	4
Ymglymiad Dysgwyr	4
Gweithdrefn ar fynegi pryder	5
Personél Allweddol	5
Y broses ymateb.....	6
Cam 1:	6
Cam 2:	7
Cam 3:	7
Dod â'r broses i ben	8
Cymorth ar gyfer datgelwyr	8
Cyfrinachedd	9
Honiadau Di-enw	9
Datgeliad i gyrff allanol	9

Rhesymeg

Nod y polisi hwn ydy darparu dull ar gyfer cyflogai iddyn nhw allu fynegi pryderon dilys am amheuon o gamymddygiad (yn anad dim) o fewn y Coleg, a gwneud hynny'n gyfrinachol. Mae'r Coleg hefyd wedi ymrwymo i amddiffyn yr unigolion hynny sy'n mynegi pryderon rhag niwed a rhag cael eu diswyddo'n annheg.

Gall y canlynol (ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol) fod yn enghreifftiau o gamymddygiad (datgeliadau cymwys):

- camau gweithredu sydd yn amhroffesiynol, amhriodol neu'n gwrthdaro â'r hyn a ystyrir yn gyffredinol yn gam neu'n gymwys e.e. anwirio graddau myfyrwyr neu gamau gweithredu sy'n codi amheuon am integriti safonau addysgol;
- methu cydymffurfio â goblygiadau statudol e.e. Diogelu a materion yn ymwneud â deddfwriaeth Gwrth-Derfysgaeth;
- camau gweithredu sy'n ennill, neu'n ceisio ennill, mantais ariannol o gysylltiad neu berthynas â neu fod yn aelod o sefydliad, cwmni neu gorff arall y dylid bod wedi'i ddatgelu'n briodol i'r Coleg;
- twyll neu anghysondebau cyllidol eraill (yn cynnwys y defnydd amhriodol neu anawdurdodedig o arian cyhoeddus), llwgrwobrwyo, llygredigaeth (gan gynnwys camddefnyddio awdurdod) neu ffurfiau eraill o anonestrwydd, e.e. dangos ffafr ormodol o ran mater cytundebol neu i ymgeisydd am swydd;
- troseddau sy'n cael eu cyflawni neu'n debygol o gael eu cyflawni;
- iechyd neu ddiogelwch unrhyw unigolyn sy'n cael ei beryglu neu'n debygol o gael ei beryglu;
- yr amgylchedd yn cael ei niweidio neu'n debygol o gael ei niweidio;
- torri cod ymddygiad;
- gwybodaeth am unrhyw un o'r uchod yn cael ei chelu neu'n debygol o gael ei chelu.

Pwy sy'n cael eu diogelu?

Yr holl gyflogai, contractwyr sy'n gweithio i'r Coleg, e.e. staff asiantaeth ac ymgynghorwyr.

Egwyddorion y Polisi

Amcan y ddogfen hon ydy annog a galluogi unigolion i fynegi pryderon difrifol o fewn y Coleg yn hytrach nag anwybyddu problem neu 'chwythu'r chwiban' tu allan i'r sefydliad. Yn arbennig, nod y polisi ydy cwrdd â gofynion y "dyletswydd" ar gyfer Coleg AB o dan Ddeddf Wrth Derfysgaeth ddiwygiedig 2015.

Gall unigolion ddadlennu mater heb ofni erledigaeth, gwahaniaethu neu anfantais wedi hynny. O dan Ddeddf Hawliau Cyflogaeth 1996 – Rhan IVA, Rhan V a Rhan X a Deddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998 mae unrhywun sy'n mynegi pryder dilys yn cael eu hamddiffyn yn gyfreithiol a sylweddol.

Bydd y Coleg yn rheoli datgeliad yn unol â'r arfer gorau a'r ddeddfwriaeth gyfredol ac ni fydd yn caniatáu unrhyw aflonyddu ar nac erledigaeth (gan gynnwys pwysau anffurfiol) o unrhyw unigolyn sy'n mynegi pryder o dan y weithdrefn hon ac yn gwneud hynny yn ddidwyll, p'un ai fydd yna sail i'r datgeliad ai peidio, a bydd y Coleg yn cymryd camau disgyblu yn erbyn ymddygiad fel hyn.

Mae'n hynod o bwysig bod y sawl sy'n dadlennu yn gweithredu yn ddidwyll a bod ganddo/ganddi sail resymol dros gredu bod y wybodaeth sy'n cael ei datgelu yn arwydd o achos o gamymddygiad o fewn y Coleg, gan y bydd camau disgyblu yn cael eu gweithredu mewn ymateb i ddatgeliadau di-sail maleisus.

Os ydy'r sawl sy'n dadlennu eisoes yn destun gweithdrefnau disgyblu neu weithdrefnau eraill o ran eu cyflogaeth, ni fydd y gweithdrefnau hynny yn cael eu hatal o ganlyniad i'r datgeliad.

Mae gan y Coleg amrediad o bolisiau a gweithdrefnau sy'n delio â safonau ymddygiad yn y gweithle, yn delio â Disgyblaeth, Achwynion, Bwlio ac Aflonyddu, Iechyd a Diogelwch a Dethol a Diogelu. Anogir y gweithlu i ddefnyddio'r hyn y mae'r gweithdrefnau hyn yn ei ddarparu lle bo'n briodol.

Yn ogystal â Rheoliadau Cyllid y Coleg, mae Polisi a Gweithdrefnau Adrodd Cyfrinachol yn ategol i weithdrefn y Coleg ar ddelio gyda Thwyll ac Anghysondeb a'r Canllawiau ar gyfer Rhoddion, Lletygarwch a Hawliadau Teithio. Mae'r polisi hwn hefyd yn cyflawni goblygiadau'r Coleg o dan Ddeddf Llwgwrwbrwyo 2010 .

Gallai fod yn briodol i ddefnyddio'r Polisi Gwrth-Dwyll i ddelio â datgeliadau gan staff o dan y Polisi ar Adrodd Cyfrinachol. Yn yr un modd, gellid defnyddio Polisi Adrodd Cyfrinachol i ddelio gydag amheuan o Dwyll neu Anghysondeb sy'n cael eu riportio o dan y polisi ar Dwyll ac Anghysondeb. Defnyddir y naill bolisi neu'r llall ond nid y ddau.

Y Swyddog Adrodd Cyfrinachol, Cyfarwyddwr Cyllid neu'r Pennaeth fydd yn penderfynu ar y polisi priodol mewn unrhyw achos.

Atebolrwydd

Mae'r Swyddog Adrodd Cyfrinachol sy'n gyfrifol am sicrhau bod y polisi yn cael ei weithredu, ei adolygu'n gyson a'i ddiweddarau, man cyswllt cyntaf i reolwyr yn y Coleg gael cyngor am y polisi, yn gyfrifol am gynnal a gweithredu'r polisi hwn a'r gweithdrefnau hyn a bydd yn adrodd yr holl bryderon sy'n cael eu adrodd o dan y weithdrefn hon.

Bydd y Swyddog Adrodd Cyfrinachol yn cadw cofnod o'r holl bryderon a godwyd ac o'r holl ganlyniadau a bydd yn adrodd yn ôl i Fwrdd y Llywodraethwyr ac i Bwyllgor Archwiliad y Coleg yn flynyddol neu'n fwy mynych, fel bo'n briodol.

Mae'r holl gyflogai yn gyfrifol am lynu at y gofynion a nodir yn y ddogfen hon; mae ganddyn nhw gyfrifoldeb cyfreithiol a moesol i riportio gweithredoedd amhriodol ac unrhyw esgeulustod rhai amgylchiadau fel yr amlinellwyd yn y weithdrefn. Mewn rhai amgylchiadau gallai methu â chodi pryderon o'r math olygu torri cytundeb neu dorri'r gyfraith.

Ymglymiad Dysgwyr

Does dim ymglymiad dysgwyr yn uniongyrchol yn y polisi hwn.

Delir ag unrhyw bryder a fynegir gan ddysgwr am aelod o'r staff neu unrhyw fyfyrwr arall, fel bo'n briodol, o dan weithdrefn berthnasol achwynion myfyrwyr.

Gweithdrefn

Gweithdrefn ar fynegi pryder

Ar y cychwyn dylid mynegi pryderon wrth y Swyddog Adrodd Cyfrinachol. Gellir gwneud hyn ar lafar neu yn ysgrifenedig.

Os yw'r sawl sy'n gwneud y datgeliad yn teimlo na all fynd at y Swyddog Adrodd Cyfrinachol gyda'i bryder neu'n teimlo bod y canlyniadau yn anfoddfaol, dylen nhw fynegi eu pryderon yn ysgrifenedig i Glerc Bwrdd y Llywodraethwyr.

Os digwydd bod y gwyn yn erbyn y Clerc, dylai'r sawl sy'n datgelu fynegi eu pryder yn ysgrifenedig i Gadeirydd Bwrdd y Llywodraethwyr.

Os digwydd bod y gwyn yn erbyn y Pennaeth, dylai'r sawl sy'n datgelu fynegi eu pryder yn ysgrifenedig i Glerc Bwrdd y Llywodraethwyr, a fydd yn gweithredu ar y cyd â Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio.

Er na oes disgwyl i'r sawl sy'n datgelu brofi gwirionedd honiad tu hwnt i bob amheuaeth, mae'n ofynnol iddyn nhw ddangos sail rhesymol dros y pryder.

Personél Allweddol

Rôl y Swyddog Adrodd Cyfrinachol ydy:

- 1) asesu a ydy'r achwyniad o fewn ystod gweithdrefn y Coleg ar Adrodd Cyfrinachol;
- 2) os, ar ôl edrych ar yr achwyniad, y bernir ei bod yn ddi-sylwedd ac anhaeddiannol, bydd y Swyddog Adrodd Cyfrinachol yn hysbysu'r sawl sy'n gwneud y datgeliad y bydd y pryder yn cael ei wrthod, gan roi rhesymau dros wneud hynny;
- 3) cynghori'r datgelydd ar y llwybr priodol i gyflwyno'r achwyniad os nad yw'n dod o dan weithdrefn Adrodd Cyfrinachol.

Y broses ymateb

Os na fydd y pryder yn dod o dan ystod y weithdrefn, bydd y camau gweithredu yn dibynnu ar natur y pryder a allai gynnwys:

- ymchwiliad mewnol
- ei gyfeirio at yr Heddlu
- ei gyfeirio at archwilwyr mewnol y Coleg
- ymchwiliad annibynnol

Er mwyn diogelu unigolion a'r rhai sydd wedi'u cyhuddo o gamweddau neu gamymddygiad posibl, bydd y Swyddog Adrodd Cyfrinachol yn gwneud ymholiadau cychwynnol i benderfynu a ydy ymchwiliad yn briodol, ac os felly, ar ba ffurf dylai'r cyfryw ymchwiliad fod. Yr egwyddor bwysicaf dan ystyriaeth y Coleg fydd budd y cyhoedd. Bydd pryderon neu honiadau sy'n dod o fewn ystod gweithdrefnau penodol (er enghraifft materion diogelu neu wahaniaethu) yn cael eu cyfeirio at y rheolwr priodol i'w hystyried yn ôl y gweithdrefnau hynny.

Gall rhai pryderon gael eu datrys drwy gytuno ar gamau gweithredu heb fod angen ymchwiliad. Os oes angen gweithredu brys, gwneir hyn cyn cynnal unrhyw ymchwiliad.

Efallai bydd angen cynnal ymchwiliad cwbl gyfrinachol h.y. peidio â hysbysu testun yr achwyniad hyd nes (neu os) y bydd angen gwneud hynny. Gallai hyn fod yn briodol mewn achosion o amheuaeth o dwyll. Mewn rhai achosion, fodd bynnag efallai byddai rhaid ystyried gwahardd unigolyn o'r gwaith yn syth.

Os digwydd bod angen ymchwiliad, bydd y Swyddog Adrodd Cyfrinachol yn penodi Swyddog Ymchwilio a fydd, fel arfer, yn Uwch Reolwr heb unrhyw gysylltiad uniongyrchol â'r unigolyn(unigolion) y mynegwyd pryder yn ei g/chylch(eu cylch).

Anfonir llythyr at gyfeiriad cartref y datgelydd yn hytrach na thrwy'r post mewnol. Dylid gofyn i'r unigolyn am y manylion hyn er mwyn sicrhau bod y cyfeiriad yn cyfateb i gofnodion y Coleg a dylid anfon y llythyr o fewn deg diwrnod gwaith (pryd bynnag fo'n rhesymol bosibl) o'r adeg y mynegwyd y pryder gan gadarnhau:

- i'r gwyn gael ei derbyn;
- yn nodi'r modd y mae'r Coleg yn bwriadu delio gyda'r mater;
- cynnig cynnal cyfarfod archwiliadol cychwynnol (i'w gynnal o fewn 10 diwrnod ar ôl derbyn y llythyr);
- lle bo'n briodol, rhoi amcan o'r amser fydd yn ei gymryd i ddarparu ymateb terfynol;
- cadarnhau a gynhaliwyd ymholiadau cychwynnol; rhoi gwybodaeth am fecanweithiau cymorth i staff;
- a chadarnhau cyd-ddisgwyliadau o ran cyfrinachedd.

Bydd y Swyddog Ymchwilio yn symud ymlaen i ymchwilio'r pryder drwy weithredu'r camau canlynol:

Cam 1: Gellir cynnal unrhyw gyfarfod oddi ar y safle mewn lleoliad ac ar adeg sy'n gyfleus i bawb. Dylid trefnu bod y cyfarfod hwn yn digwydd o fewn cyfnod rhesymol er mwyn darganfod rhagor

drwy ystyried dogfennaeth berthnasol neu dystiolaeth gefnogol er mwyn penderfynu ar y camau gweithredu nesaf a dylai gynnig yr hawl i'r datgelydd ddod â chynrychiolydd o'r undeb llafur neu gydweithiwr gydag e/hi i'r cyfarfod. Dylai'r Swyddog Ymchwilio ddod ag unigolyn i gymryd nodiadau gydag e/hi i'r cyfarfod hwn.

Dylai'r Swyddog Ymchwilio baratoi ar gyfer y cyfarfod ymlaen llaw ac, o edrych ar unrhyw ddogfennaeth berthnasol, ystyried a oes angen unrhyw eglurhad ar y datgeliad, gofyn am unrhyw dystiolaeth ategol ychwanegol a nodi unrhyw dystion posibl eraill.

Cam 2: Ar ôl y cyfarfod, bydd y Swyddog Ymchwilio yn adolygu nodiadau'r cyfarfod ynghyd ag unrhyw ddogfennaeth neu ohebiaeth arall yn ymwneud â'r ymchwiliad, er mwyn sefydlu a yw'r honiad yn cael ei ategu neu beidio. Dylid trefnu cyfarfodydd pellach os oes angen.

Cam 3: Bydd y Swyddog Ymchwilio yn adrodd yn ôl at y Swyddog Chwythu'r Chwiban gyda'r canfyddiadau yn ddiode. Os ategir yr honiad, bydd y Swyddog Adrodd Cyfrinachol naill ai'n caniatáu camau gweithredu yn allanol e.e.:

- adrodd i'r canlynol;
 - Yr Heddlu
 - DfES
 - Estyn
 - Cymwysterau Cymru / Corff Dyfarnu
 - Cyngor Gweithlu Addysgol
 - Adran Weithredol Iechyd a Diogelwch
 - Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
 - Swyddfa Twyll Difrifol
 - Cyllid y Wlad
 - Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
 - Unrhyw gorff allanol perthnasol arall

neu:

- Cymryd camau gweithredu mewnol, e.e. (camau disgyblu, archwiliadau mewnol, adolygu polisiau a gweithdrefnau mewnol).

Er mwyn sicrhau'r datgelydd bod yr achwyniad wedi cael ei drin yn briodol, yna – yn amodol; ar gyfyngiad cyfreithiol ac yn dilyn yr ymchwiliad – bydd y Swyddog Adrodd Cyfrinachol yn ysgrifennu i gyfeiriad cartref y datgelydd i gadarnhau'r canlyniad.

Ni fydd y cadarnhad hwn yn cynnwys manylion o unrhyw gamau disgyblu a fydd yn cael eu cadw'n gyfrinachol i'r unigolyn/unigolion dan sylw.

Ymhob achos sy'n arwain at gamau disgyblu ffurfiol, bydd enw'r datgelydd yn cael ei ddatgelu'n llawn i'r unigolyn y mynegwyd pryder amdano/amdani ynghyd â natur yr honiad a'r dystiolaeth sydd ar gael er mwyn i'r unigolyn dan sylw gael cyfle i ymateb.

Mae gan ddatgelydd sydd heb derbyn ymateb o fewn y cyfnod amser a nodwyd uchod neu sydd fel arall yn teimlo nad yw'r achwyniad yn cael ei drin yn briodol, yr hawl i apelio at y Pennaeth. Y

Pennaeth fydd yn penderfynu'n derfynol ar y camau i'w gweithredu a bydd yn hysbysu'r datgelydd am y canlyniadau.

Os nad oes achos i'w ateb, ond bod pryder datgelydd yn un dilys ac nad oedd yn gweithredu'n faleisus, dylai'r Swyddog Adrodd Cyfrinachol sicrhau na fydd y datgelydd yn dioddef unrhyw ddial.

Dod â'r broses i ben

Bydd y Swyddog Adrodd Cyfrinachol yn cadarnhau yn ysgrifenedig, gasgliad yr ymchwiliad i'r unigolyn neu'r unigolion y gwnaed yr achwyniad yn ei erbyn/eu herbyn ac anfon y cyfryw gadarnhad i'r cyfeiriad cartref. Bydd y Swyddog Adrodd Cyfrinachol yn llunio adroddiadau chwarterol yn rhoi manylion am bob datgeliad sydd wedi'i brofi ac unrhyw gamau a weithredwyd i'r Pwyllgor Archwilio drwy 'r Cyfarwyddwr Cyllid. Rhoddir gwybod i'r Pwyllgor Archwilio am unrhyw ddatgeliad sydd heb ei brofi yn yr un modd.

Cymorth ar gyfer datgelwyr

Mae'r Coleg yn cydnabod y gall mynegi pryder fod yn brofiad llawn strès ac mae'n ceisio bod yn gefnogol a dileu'r ofn o'r broses.

Mae'r Coleg hefyd yn cydnabod y gallai cyflogai ddymuno gael cyngor a chael swyddogion eu hundebau llafur i'w cynrychioli yn ôl y polisi hwn, ac mae'n sylweddoli ac yn cefnogi swyddogaeth swyddogion undebau llafur yn y maes hwn.

Os bydd datgelwyr, ar unrhyw gam, yn poeni am y cynnydd a wneir, angen cymorth neu dawelwch meddwl neu'n teimlo eu bod yn cael eu herlid neu'n eu harasio o ganlyniad i wneud y datgeliad, dylen nhw gysylltu â'r Swyddog Adrodd Cyfrinachol.

Efallai gallai datgelwyr sy'n mynegi pryder neu sy'n destun ymchwiliad dderbyn cwnsela cyfrinachol, gellir gofyn am hyn drwy gysylltu â'r adran Adnoddau Dynol a fydd yn delio â'r cais yn gyfrinachol.

Cyfrinachedd

Bydd y Coleg yn trin pob datgeliad fel hyn yn gyfrinachol a sensitif. Bydd y Coleg yn cymryd gofal arbennig i gadw enw unigolyn sy'n mynegi pryder o dan y weithdrefn hon yn gyfrinachol hyd nes penderfynir ei bod hi'n angenrheidiol cychwyn ymchwiliad mwy ffurfiol. Ar ôl hynny, gellir cadw enw'r datgelydd yn gyfrinachol, os gofynnir am hynny, oni bai ei fod yn anghydnaws ag ymchwiliad teg neu oni bai bod rheswm hollbwysig dros ddatgelu. Mewn unrhyw achos o'r fath, ymgynghorir â'r datgelydd cyn gweithredu unrhyw gamau.

Os datgelir enw heb awdurdod, gallai'r cyfryw unigolyn gael ei dd/disgyblu.

Honiadau Di-enw

Mae'r weithdrefn hon yn annog datgelwyr i sicrhau bod enw unigolyn yn gysylltiedig â honiad pryd bynnag bo hynny'n bosibl. Mae pryderon a fynegir yn ddi-enw yn fwy anodd i edrych i mewn iddyn nhw ac yn anodd eu datrys.

Wrth ymateb i ddatgeliad di-enw, bydd y Swyddog Adrodd Cyfrinachol yn rhoi'r sylw dyladwy i degwch ar gyfer unrhyw unigolyn a enwir, i ddifrifoldeb y pryder a fynegwyd, hygrededd yr achwyniad ac i'r rhagolygon am ymchwiliad effeithiol a dod o hyd i dystiolaeth.

Datgeliad i gyrff allanol

Bwriad y weithdrefn hon ydy cynnig llwybr i'r datgelydd fynegi pryder o fewn y Coleg. Fodd bynnag, mae gan y datgelydd yr hawl i fynd â'r mater tu allan i'r Coleg os bydd yn credu na ddeliwyd yn foddhaol â'r pryder. Os felly, dylai'r datgelydd godi'r mater yn y lle cyntaf gyda Chlerc Bwrdd y Llywodraethwyr.